Cyngor Cymuned Llaneilian (314)
Cofnodion cyfarfod Mehefin 26, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Helen Hughes, Hefina Williams, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Ian Evans, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Thomas Jones, Glenys Jones

Yn absennol: David Gerrard

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.
Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir a bod cworwm yn bresennol.

2 Datgan Diddordeb

Dim

3 Cymeradwyo Ffurflen Archwiliad Blynyddol

Cadarnhaodd y clerc bod y ffurflen flynyddol wedi ei ddychwelyd yn dilyn yr archwiliad mewnol. Mae'r archwiliwr mewnol yn fodlon a, ac wedi cymeradwyo, y wybodaeth oedd wedi ei baratoi a'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddo, ac wedi arwyddo'r ffurflen flynyddol i gadarnhau hyn.

Cadarnhaodd y clerc pa wybodaeth a dogfennau arall oedd angen ei anfon at BDO yr archwiliwr allannol a bu cyfle i'r aelodau weld y pecyn oedd i'w gyflwyno iddynt. Nodwyd bod rhaid i'r pecyn fod wedi cyrraedd BDO erbyn 30/6/2019 ac mai dyma'r rheswm am y cyfarfod ychwanegol llai nac wythnos cyn cyfarfod cyffredinol y cyngor.

Cymeradwywyd yn unfrydol y ffurflen flynyddol a'r pecyn tystiolaeth a diochwyd i'r clerc am ei gwaith i baratoi'r dogfennau yn unol a gofynnion yr archwiliwyr.

4 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Gorffennaf 2, 2019 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 19.20

Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd